# EISTEDDFOD MABON, DYFED, ELFED A MADAM PATTI

## gan MAIR LEWIS

DE POWYS yw'r label sydd wedi cael ei roi yn enw ar y fro sy'n estyn cartref i'r Eisteddfod Genedlaethol eleni. Gan nad yw De Powys yn golygu fawr ddim naill ai'n hanesyddol nac yn ddaearyddol y tu allan i faes llywodraeth leol y mae'n fwy ystyrlon cyfeirio at y fro fel hen siroedd Brycheiniog a Maesyfed neu fel hen deyrnasoedd Brycheiniog a Rhwng Gwy a Hafren, a chantref Buallt hyd yn oed.

* * * *

ERBYN 1937 roedd yr Eisteddfod Genedlaethol wedi ymweld â phob un o hen siroedd Cymru ac eithrio Maesyfed. Hanner cant a chwech o flynyddoedd yn ddiweddarach wele'r map yn gyflawn a da o beth hynny. Bu'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mrycheiniog ddwywaith o'r blaen, Aberhonddu 1889 ac Ystradgynlais 1954. Gan fod yna rai yng Nghymdeithas Bob Owen sydd yn casglu Rhaglenni Swyddogol yr Eisteddfod Genedlaethol fe gawn ni oedi am ychydig i fwrw golwg ar raglen 1889. Yr hyn sydd yn taro rhywun ar unwaith yw'r ffaith fod yna gymaint o Saesneg ynddi, ac yn yr Eisteddfod ei hun hefyd o ran hynny! Wrth edrych yn fanwl ar y Rhaglen gwelir fod hysbysebion yn rhan hanfodol o'r gyfrol yr adeg honno hefyd. Gwelir hefyd fod natur cyfarfodydd yr Eisteddfod wedi newid yn sylweddol.

* * * *

CYRHAEDDODD yr ymgyrch i gynnal Eisteddfod Genedlaethol 1889 yn Aberhonddu ei phenllanw yn y cyfarfod o Orsedd y Beirdd a gynhaliwyd yn Hyde Park, Llundain, ar 9 Awst 1887, pan gyflwynodd cynrychiolwr Aberhonddu gais swyddogol am gael cynnal yr Eisteddfod yn y dref yn 1889. Derbyniwyd y cais yn ffurfiol yn y Cyfarfod Blynyddol o Gymdeithas yr Eisteddfod a gynhaliwyd yn Neuadd Queen's Gate, South Kensington yn ddiweddarach yn y dydd.

Erbyn dydd Mawrth, 10 Gorffennaf 1888, yr oedd cefnogwyr yr eisteddfod yn Aberhonddu yn barod i gyhoeddi Eisteddfod 1889 o'r Maen Llog yng Nghlosycastell, Aberhonddu. Clwydfardd oedd yr Archdderwydd ar y pryd. Tystia'r adroddiadau fod 2,000 o bobl yn gwylio'r gweithgareddau a bod Hwfa Môn, Nathan Dyfed, Dewi Wyn o Esyllt, Watcyn Wyn, Dewi Môn a Tudno ymhlith y beirdd oedd yn bresennol yn yr Orsedd.

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ei hun flwyddyn yn ddiweddarach ar ddyddiau Mawrth, Mercher, Iau a Gwener 27-30 Awst 1889 mewn pafiliwn pwrpasol a godwyd yng Ngherrigcochion, ar safle hen Ysgol Ramadeg y Merched. Codwyd y pafiliwn gan un Mr Clark o Stoke-on-Trent ac fe ddywed yr hanes fod lle i 8,000 ynddo.

Er bod yr Eisteddfod wedi gwneud elw o £195-5-4 a bod hynny yn awgrymu eisteddfod lwyddiannus yr argraff gyffredinol y mae rhywun yn ei gael wrth ddarllen yr adroddiadau yn y wasg yw mai eisteddfod braidd yn fflat oedd hi. Yn sicr ddigon Eisteddfod yn yr hen ddull oedd hi gyda'r boneddigion a'r gwŷr mawr yn cymryd rhan amlwg ynddi a llawer iawn o'r gweithgareddau yn Saesneg. Mae'n debyg mai Mabon, Madam Patti, Dyfed ac Elfed oedd prif sêr yr Eisteddfod. Roedd Mabon (William Abraham, 1842-1922) nid yn unig yn Llywydd Cyntaf Ffederasiwn Glöwyr De Cymru ac yn Aelod Seneddol dros y Rhondda ond hefyd yn arweinydd eisteddfodol poblogaidd oedd yn meddu ar lais tenor nerthol. Byddai'n canu i'r cynulleidfaoedd mawr yn y pafiliwn yn aml. Dyfed oedd yn fuddugol ar yr awdl ar y testun 'Y Beibl Cymraeg', ar y gerdd ar fesurau rhyddion heb fod dros gant o linellau ar y testun 'Llyn Safaddan' a hefyd ar osteg o englynion i 'Bannau Brycheiniog'. Elfed oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Goron gydag arwrgerdd heb fod dros fil o linellau ar y testun 'Llywelyn ein Llyw Olaf'. Bu cryn gystadlu ymhlith y corau hefyd, yn enwedig ar y brif gystadleuaeth gorawl ar y dydd Gwener pryd y gwelwyd wyth côr oedd yn cynnwys rhwng 150 a 200 o leisiau yr un yn cystadlu am wobr gyntaf o £150 a medal aur i'r arweinydd ac ail wobr o £50. Yr oedd tri darn gosod, sef 'Ye Nations, offer to the Lord' (Mendelssohn), 'Lullaby of Life (Leslie) a 'Bryd hyn chwi feibion Duw' (D. Jenkins). Rhifodd Mabon 1,267 o bobl yn y corau. Pan ddaeth y cystadlu i ben canwyd 'Hen Wlad Fy Nhadau' gan ddeng mil o bobl o dan arweinyddiaeth Mabon.

* * * *

CYN cau pen y mwdwl ar Eisteddfod Genedlaethol 1889 mae'n rhaid cyfeirio at un digwyddiad arall, sef ymweliad Madam Patti â'r Eisteddfod ar y dydd Mercher. Yn sicr ddigon dyma oedd uchafbwynt yr Eisteddfod ac roedd Mabon yn ei ogoniant yn seboni'r gantores enwog o Graig y Nos. I nodi'r achlysur gosodwyd cystadleuaeth arbennig am bennill byrfyfyr amdani a rhannwyd y wobr rhwng y Farteg ac Eifionydd. Dyma bennill y Farteg:

*Madame Patti bri ein bröydd — a'i chlod*
*Uwchlaw pawb drwy'r gwledydd,*
*A byw ei hanes fydd beunydd*
*Tra Craig y Nos yn dangos dydd.*

Dyma bennill Eifionydd:

*Cadd gŵyl awen eleni — organ aur*
*Craig y Nos i'n lloni*
*A'i swynol lais anwyl hi*
*Anfonwyd o'r Nef inni.*

Dyma fel y mae Morien yn disgrifio'r sefyllfa yn Saesneg yng nghyfrol *Cofnodion a Chyfansoddiadau Buddugol* yr Eisteddfod:

> *At one o'clock the vast pavilion was literally crammed, and it was estimated that at least 12,000 persons had assembled to hear the famous Queen of Song. As the minutes passed the excitement became intense, and it was utterly impossible to proceed with the adjudications. Mabon, with characteristic tact, came into the breach, and started 'Hen Wlad fy Nhadau'. The solo was sung by Mr Lucas Williams of London, and the audience heartily joined in the chorus. The last verse was sung by Mabon himself. Even this did not fill up the gap, and after the conductor had announced that the train bearing Madame Patti had arrived the interval was spent in singing 'O Fryniau Caersalem'. In the meantime the band of the 1st South Wales Borderers was despatched to the station to accord the Queen songstress, a musical welcome. Thousands of people who were unable to obtain admission to the pavilion lined the route, and Madame Patti was vociferously cheered as she drove along. When the strains of the band were heard at the pavilion, the vast sea of humanity relapsed into silence, and every eye was turned upon the platform entrance . . . and when, a*



*Adelina Juanna Maria Patti (1843-1919) yn ei chartref yng Nghraig y Nos.*
Llun: Llyfrgell Genedlaethol Cymru.